Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru

07 Tachwedd 2017

Annwyl Huw

**BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU)**

Diolch am eich llythyr ar 16 Hydref 2017 mewn perthynas â'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru). Rydych hefyd yn cyfeirio at lythyr y gwnaethoch ei anfon at y Llywydd ar 8 Mehefin 2016. Yn anffodus, ni chafodd y llythyr hwn ei dderbyn yn ffurfiol gan y Cynulliad Cenedlaethol a hoffwn ymddiheuro na chawsoch ymateb.

**Memorandwm Esboniadol – Codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru**

Rydych yn nodi'r mater bod paragraffau 9 a 10 yn Atodlen 1 i'r Bil yn cynnwys darpariaethau ar gyfer codi taliadau uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru ac er mwyn cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog mae'n ofynnol cael adroddiad yn gosod eich safbwynt ynghylch a yw'r taliadau hynny yn briodol. Diolch ichi am gynnig paratoi yr adroddiad hwn. Byddwn yn ddiolchgar i'w dderbyn cyn gynted â bo modd.

O ran y materion eraill y gwnaethoch eu nodi, gan fod y Bil bellach wedi'i gyflwyno, credaf mai materion i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ydynt, i'w trafod wrth graffu ar y Bil yn ystod Cyfnod 1. Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i'w ystyried.

Fodd bynnag, credwn y byddai'n ddefnyddiol i gadarnhau pam y defnyddiwyd y dull yn y Bil mewn perthynas â phob un o'ch pwyntiau:

**Cynnwys Swyddfa Archwilio Cymru yn Atodlen 3**

Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i chynnwys yn Atodlen 3 i'r Bil, fel yr awgrymwyd gan Bwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad yn ei adroddiad ar y Bil drafft (Mawrth 2016).

**Adran 68**

Cymerwyd cyfundrefn Adran 68 yn uniongyrchol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus 2005, ac ma'r gyfundrefn honno wedi'i hymestyn i gynnwys Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Trefniadau i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd**

Yn ystod eich tystiolaeth ynghylch y Bil drafft, gwnaethoch nodi, os am sicrhau cysondeb mewn deddfwriaeth archwilio, bod angen cynnwys darpariaeth yn y Bil i'r Archwilydd Cyffredinol gael ei fodloni p'un a yw'r Ombwdsmon wedi gwneud trefniadau neu beidio ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Fodd bynnag, ni wnaeth Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad fynd â hyn ymhellach ac felly nid oedd wedi'i gynnwys yn y Bil.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Cyllid yn fodlon ailedrych ar y materion hyn unwaith yn rhagor yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cyfnod 1 gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Os bydd tystiolaeth yn cefnogi eich sylwadau, byddem yn ystyried cyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol yng Nghyfnod 2.

Yn gywir

Simon Thomas AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English.*